

Dyddiad/Dyddiad Mehefin 2020  
Gofynnwch am/Ask for: Cludiant Ysgol  
Rhif ffôn/Telephone 01446 700111  
Eich Cyf/Your Ref  
Fy Nghyf:/My Ref:  
e-bost/e-mail: schooltransport@valeofglamorgan.gov.uk

The Vale of Glamorgan Council  
Development Services  
The Alps, Wenvoe CF5 6AA  
Telephone: (01446) 700111  
[www.valeofglamorgan.gov.uk](http://www.valeofglamorgan.gov.uk)  
Gwasanaethau Datblygu  
Cyngor Bro Morgannwg Yr  
Alpau, Gwenfô CF5 6AA  
Telephone: (01446) 700111  
[www.valeofglamorgan.gov.uk](http://www.valeofglamorgan.gov.uk)



Annwyl Riant/Gofalwr,

Rwy'n ysgrifennu ynghylch darparu cludiant rhwng y cartref a'r ysgol ar gyfer disgyblion cymwys o ddydd Llun, 29 Mehefin 2020 ac yn dymuno rhannu ein bwriad â chi i ddarparu cludiant, er y bydd hyn yn gyfyngedig iawn. Gweler isod.

1. Yn bennaf ac o gofio'r problemau o ran capasiti a fydd ynghlwm wrth ddarparu cludiant i'r ysgol o ganlyniad i ofynion ymbellhau cymdeithasol, rhaid ystyried sut y bydd y rhai sydd â hawl i gael cludiant am ddim i'r ysgol yn cael lle ar gerbyd gan gofio mai'r **dull dewisol a argymhellir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru yw i ddisgyblion gerdded neu feicio a/neu i'w rhieni fynd â nhw i'r ysgol**. Dim ond 20% o'r lle arferol y bydd cerbydau yn gallu ei gynnig er mwyn sicrhau cadw at y gofynion ymbellhau cymdeithasol 2 fetr ac felly rydym wedi gorfod rhoi nifer o fesurau ar waith.
2. Bydd y Cyngor yn cynorthwyo, cyn belled ag y bo'n ymarferol bosibl, i weithredu bysus i gyd-fynd ag amserau dechrau a gorffen diwygiedig ysgolion. Fodd bynnag, dim ond unwaith y bydd cludiant yn gweithredu i fynd â disgyblion i'r ysgol ac unwaith i fynd â disgyblion adref o'r ysgol. Bydd swyddogion o fewn y Tîm Cludiant i'r Ysgol yn gweithio gydag ysgolion i drefnu hyn.
3. Bydd y Cyngor yn atal gwasanaethau cludiant ysgol disgrisiynol sy'n codi ffioedd ar unwaith, sy'n darparu ar gyfer y disgyblion hynny sy'n byw o fewn pellter cymhwys o i'w hysgol ac a ddylai deithio'n llesol i'r ysgol ac adref. Bydd hyn yn gymorth pellach i ryddhau cerbydau ar draws y rhwydwaith y gellid eu hail-neilltuo i wasanaethau statudol eraill lle mae diffyg lle.
4. Cytunir ar y meini prawf canlynol yn y drefn a ddangosir (h.y. A i D) wrth benderfynu a all disgybl gael lle ar wasanaeth cludiant i'r ysgol, OS yw nifer y seddi y gofynnir amdanynt yn fwy na nifer y seddi sydd ar gael:
  - a. Os gall y riant/gofalwr fynd â'r disgybl neu gall y disgybl deithio'n llesol i'r ysgol (cerdded/beicio/sgwtio) yng nghwmni rhywun arall yn ôl yr angen, ni fydd y disgybl yn gymwys i gael sedd.
  - b. Os nad yw (a) yn bosibl, rhoddir y dewis cyntaf o sedd i ddisgybl sy'n cael ei ystyried yn agored i niwed (mae gwybodaeth am hyn i'w chadarnhau gan ysgolion unigol).
  - c. Os oes seddi ar gael o hyd ar ôl ystyried (b), mae disgybl yn ddysgwr o oedran ysgol statudol (dosbarth derbyn i Flwyddyn 11), bydd yn cael blaenoriaeth dros y rhai o oedran ysgol anstatudol (Blwyddyn 12 a 13).
  - d. Os oes seddi ar gael o hyd neu os yw nifer y ceisiadau gan ddisgyblion o oedran statudol yn fwy na nifer y seddi sydd ar gael a bod pwyntiau b ac c wedi'u hystyried, bydd dysgwyr sy'n byw bellaf o'r ysgol yn cael blaenoriaeth.
5. Ni fydd y Cyngor yn darparu unrhyw gludiant ychwanegol o'i gymharu â lefelau cyn COVID-19 ar gyfer y cyfnod pedair wythnos hwn.

6. Argymhelliad presennol Llywodraeth Cymru yw y dylid gwisgo gorchudd tair haen ar drafnidiaeth gyhoeddus. Argymhelliad yn unig yw hwn ac nid yw'n orfodol. Er mwyn sicrhau diogelwch disgyblion ar gludiant i'r ysgol, ystyrir ei bod yn arfer da i yrwyr a hebryngwyr wisgo masgiau o'r fath (ond nid disgyblion a allai gael trafferth gyda hyn).
7. Bydd pob gweithredwr yn cael gweithdrefnau i'w dilyn, yn ogystal â'u gweithdrefnau COVID-19 eu hunain. Bydd hyn yn cynnwys yr argymhellion canlynol:
  - a. Gyrwyr/hebryngwyr i wisgo gorchuddion wyneb tair haenen;
  - b. Gyrwyr/hebryngwyr i gadw at ofynion ymbellhau cymdeithasol wrth ddisgyblion cymaint ag y bo modd;
  - c. Dylai'r gyrrwr aros yn ei sedd ar gyfer y daith gyfan a pheidio â mynd oddi ar y bws nes iddo ddychwelyd i'r depo;
  - d. Ni ddylai neb fynd ar y cerbydau rhwng gwasanaethau'r bore a'r prynhawn; a
  - e. Dylai cerbydau gael eu glanhau'n drylwyr ar ôl dychwelyd i'r depo gyda'r hwyr.Fodd bynnag, dylid nodi ymhellach y gall fod gan weithredwyr unigol ofynion ychwanegol y bydd angen cadw atynt er mwyn defnyddio'r gwasanaeth. Rhoddir mwy o wybodaeth am ofynion o'r fath cyn gynted â phosibl i'r bobl dan sylw.
8. **Cludiant ADY** - Mae'r mwyafrif o'r uchod yn berthnasol i wasanaethau cludiant i ysgolion prif ffrwd yn unig a bydd y disgyblion hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac sydd â'r hawl i gael cludiant am ddim i'r ysgol yn cael eu hasesu yn ôl eu hamgylchiadau unigol a cheisir cytundeb rhwng y Tîm Cludiant Teithwyr, yr ysgol a'r rhiant/gofalwr ynglŷn â pha gludiant y gellir ei ddarparu ar wahân.

**Felly byddwn yn ddiolchgar pe baech yn rhannu'r wybodaeth hon cyn gynted â phosibl â rhieni/gwarcheidwaid plant sy'n defnyddio gwasanaethau cludiant o'r cartref i'r ysgol ac yn gofyn iddynt ystyried y bwriadau uchod, yn enwedig pwynt 1, ac e-bostio [schooltransport@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:schooltransport@valeofglamorgan.gov.uk) cyn gynted ag y bo modd erbyn 12:00 (canol dydd), ddydd Mercher 24 Mehefin 2020 fan bellaf os oes angen cludiant ysgol arnynt o hyd trwy ddarparu'r wybodaeth ganlynol.** Fodd bynnag, ni all y Cyngor warantu y caiff cludiant ei ddarparu i unrhyw blentyn ar hyn o bryd.

- Enw'r plentyn**
- Dyddiad geni**
- Yr ysgol a fynychir**
- Rhif Gwasanaeth Bws yr Ysgol (dylai'r rhif fod ar bàs bws ysgol presennol y plentyn)**
- Dydd(iau) yr wythnos mae angen cludiant**
- Y rheswm pam mae angen y gwasanaeth (h.y. plentyn sy'n agored i niwed neu'n methu mynychu heb gludiant ysgol).**

Byddwn yn anfon e-bost at y rhieni/gofalwyr hynny sy'n gofyn am gludiant ac yn cadarnhau a allwn ddarparu. **Os nad fyddwch yn derbyn e-bost ni fydd eich plentyn yn gallu teithio.** Bydd darparwyr trafnidiaeth yn derbyn rhestr o ddisgyblion i'w cludo a'r diwrnod y bydd y disgybl yn teithio. Bydd hyn yn caniatáu i ni sicrhau nad yw cerbydau yn mynd dros y capasiti a'u bod yn gallu darparu'r amodau ymbellhau cymdeithasol gofynnol.

Yn gywir

**Y Tîm Cludiant Ysgol**

XX

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg/Correspondence is welcomed in Welsh or English